EITEM 7 AR YR AGENDA
Y BWRDD GWEITHREDOL
26 MEHEFIN 2015

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.org.uk

Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Diben: Rhoi gwybod i'r Bwrdd Gweithredol am Gynllun Busnes y Gymraeg mewn Addysg

ARGYMHELLION/PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL Y MAE EU HANGEN:

ARGYMHELLIR bod y Bwrdd Gweithredol yn awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â'r cynllun hwn ar y sail a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

RHESYMAU: Sicrhau cysondeb o ran ymagwedd at ddwyieithrwydd ar draws ERW a gwella safonau o ran addysgu a dysgu y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif Ffôn: 01267 246641**
Catrin Sara Griffiths	**Ymgynghorydd Her ERW** **Cadeirydd Grŵp y Gymraeg Mewn Addysg**	**E-bost: csgriffiths@sirgar.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
Y BWRDD GWEITHREDOL
26 MEHEFIN 2015

Y GYMRAEG MEWN ADDYSG
CRYNODEB BYR O DDIBEN YR ADRODDIAD: Nod yr adroddiad yw rhoi trosolwg i'r aelodau mewn perthynas â grŵp y Gymraeg mewn Addysg ERW a darparu manylion ynghylch sut y bydd y cymorth a roddir i'r Gymraeg mewn Addysg ledled ERW yn gweithio. **Blaenoriaethau:** Cydgysylltu a sicrhau ansawdd o ran sut yr eir ati i gyrraedd nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru drwy gyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg pob awdurdod lleol. Sicrhau bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg. Sicrhau y cyrhaeddir targedau cytûn mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac ail iaith. Sicrhau bod cysylltiad agos rhwng Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a blaenoriaethau strategol eraill a chynlluniau unigol ar lefelau Awdurdod Lleol unigol. Cefnogi ysgolion er mwyn gwella capasiti ysgolion i roi gwelliannau ar waith o ran y Gymraeg fel cyfrwng neu fel pwnc. Cefnogi ysgolion dwy ffrwd i symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith.

ADRODDIAD MANWL YN ATODEDIG?	OES – Atodiad A

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldebau	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
DIM	**DIM**	**DIM**	**DIM**	**DIM**

YMGYNGORIADAU

Mae manylion unrhyw ymgyngoriadau i'w cynnwys yma: Amh

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad i Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:

RHESTRIR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Lleoliadau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld

	AMH	AMH

Atodiad A

Cyflwyniad a Chyd-destun

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gwella'r polisi ynghylch y Gymraeg mewn Addysg fel rhan o newidiadau cwricwlaidd newydd.

Datblygu adran gyflwyno gyffredin ar gyfer pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau cysondeb.

Sicrhau bod y modd y caiff pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ei gyllido yn cyd-fynd â'r gofynion cyllido a bennwyd ar gyfer y Grant Gwella Addysg ond bod tasgau rhanbarthol penodol yn cael eu rhoi ar waith drwy ddyraniad canolog

Datblygu cronfa ddata ranbarthol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rheiny lle dysgir Cymraeg iaith gyntaf hyd at lefel TGAU. Bydd y dadansoddiad data hwn yn sicrhau bod rhagor o gysondeb o ran pennu targedau a herio deilliannau.

Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth addysg cyn-ysgol - prif-ffrydio'r iaith Gymraeg i ddatblygiadau'r sector cyn-ysgol a sicrhau parhad.

Llunio rhestr o ysgolion i symud pob ysgol ar hyd y continwwm iaith a chydweithio er mwyn llwyddo.

Codi ymwybyddiaeth o'r broses statudol o newid categori iaith ysgol. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hwyluso'r broses gymhleth hon.

Adolygu'r ddarpariaeth Canolfan Iaith ar gyfer Hwyrddyfodiaid ac ystyried y posibiliadau ar gyfer newid ar draws ERW.

Mabwysiadu Siarter yr Iaith Gymraeg (Gwynedd) drwy ddatblygu Siarter Ail Iaith ERW ar gyfer holl ysgolion cynradd ac uwchradd ERW.

Ffurfioli'r berthynas rhwng addysg cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd. Trafod y gweithgareddau pontio â'r ysgolion uwchradd er mwyn cael gwell cysondeb ar draws y rhanbarth.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar fideo ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ynghylch manteision addysg ddwyieithog. Gweithio ledled ERW i hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog, gan waredu'r mythau sy'n perthyn iddi.

Cydweithio er mwyn creu adnoddau o safon i wella addysgu a dysgu Cymraeg a Dwyieithog - i'w rhannu ar wefan ERW, a thrwy hynny galluogi pawb i gael mynediad iddynt yn syth.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraethwyr Ysgol a staff er mwyn cynnal un archwiliad o sgiliau ieithyddol staff ysgol.

Datblygu'r capasiti i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith.

CITY AND COUNTY OF SWANSEA
DINAS A SIR ABERTAWE

Neath Port Talbot County Borough
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor
Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Powys